**Wylfa Newydd**
**Adroddiad ar yr Effaith Leol**

Pennod 1: Cyflwyniad

**Rhagfyr 2018**

Cyf PINS:  EN010007

## 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Pwrpas yr Adroddiad ar yr Effaith Leol

1.1.1 Mae'r Adroddiad hwn ar yr Effaith Leol (yr Adroddiad), a gyflwynwyd i'r Awdurdod Archwilio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan Adran 60 o Ddeddf Cynllunio 2008, yn dilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio[1], ac mae'n ceisio darparu barn gytbwys o effeithiau positif, niwtral a negyddol lleol fel y'u diffinnir yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Dull o ddiffinio a dosbarthu effeithiau a fabwysiadwyd yn yr Adroddiad hwn.**

| *Categorïau'r Adroddiad* | *Asesiad o'r effaith amgylcheddol cyfatebol* | *Disgrifiad* |
|---|---|---|
| Positif | Cymharol fuddiol neu'n fuddiol iawn | Effeithiau y gellir eu rhagweld yn arwain at welliant amlwg neu fesuradwy ar y llinell sylfaen sy'n fwy na dim ond mân effeithiau o fewn y cyd-destun, er enghraifft, mae adfer tir halogedig (yn ynysig) yn debygol o gael effaith bositif, fel y mae creu swyddi. |
| Niwtral | Braidd dim effaith fuddiol neu andwyol | Effeithiau sydd heb (gan ystyried unrhyw fesurau lliniaru penodol) unrhyw effaith ddirnadwy, neu effaith sy'n ddibwys o fewn y cyd-destun. |
| Negyddol | Cymharol andwyol neu andwyol iawn | Effeithiau y gellir eu rhagweld, hyd yn oed gyda mesurau lliniaru, yn arwain at ddirywiad amlwg neu fesuradwy ar amodau'r llinell sylfaen. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd cynnydd mewn llygredd, gostyngiadau mewn amwynderau a mwy o bwysau ar adnoddau fel ffyrdd, canolfannau hamdden neu wasanaethau iechyd i gyd yn negyddol. |

## 1.2 Strwythur Adroddiad ar yr Effaith Leol

1.2.1 Mae cynnwys yr Adroddiad wedi cael ei lywio gan *Nodyn Cyngor Un* yr Arolygiaeth Gynllunio: *Adroddiadau ar yr Effaith Leol* (Ebrill 2012). Mae'r Adroddiad yn ceisio hysbysu'r Awdurdod Archwilio am faterion perthnasol o bwysigrwydd lleol drwy ddefnyddio gwybodaeth leol a thystiolaeth i gefnogi safbwynt Cyngor Sir Ynys Môn (Cyngor Môn). Cefnogir y materion a'r effeithiau a godwyd gan dystiolaeth gynhwysfawr. Lle nad yw'n bosibl dibynnu ar dystiolaeth gonfensiynol, caiff dadleuon eu cyflwyno sy'n seiliedig ar wybodaeth leol, profiad a chrebwyll broffesiynol. Caiff ei nodi'n glir os bydd hynny'n digwydd.

[1] Nodyn Cyngor Un: Adroddiadau ar yr Effaith Leol (Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Ebrill 2012) (Dolen)

1.2.2 Mae'r Adroddiad wedi'i rannu'n ddwy adran ar wahân. Mae'r adran gyntaf (Penodau 3–16) yn cynnwys 'materion thematig' ar draws y prosiect. Mae'r ail adran (Penodau 17 - 22) yn cynnwys 'materion sy'n benodol i safleoedd' fel y maent yn berthnasol i naill ai prif safle Wylfa Newydd neu unrhyw un o safleoedd y 'datblygiadau cysylltiedig'. Mae pob un o'r penodau thematig a'r penodau sy'n ymdrin â safleoedd penodol yn dilyn yr un fformat, gan nodi:

a) Trosolwg o'r Effeithiau: Llunio a chrynhoi'r prif faterion ac effeithiau - yn unigol ac yn gronnol mewn perthynas â'r prosiect a'r amgylchiadau lleol.
b) Cyd-destun: Fframio'r effaith o ran y cyd-destun lleol ehangach.
c) Sail Effeithiau a Thystiolaeth: Disgrifiad o'r effaith a chrynodeb o'r dystiolaeth sy'n dangos pam mae angen mesurau i liniaru'r effaith.
ch) Safbwynt Polisi: Y cyd-destun polisi lleol a'r cysylltiad rhwng hynny, yr effaith a'r mesurau lliniaru.
d) Bylchau mewn Gwybodaeth (os yw'n berthnasol): Tanlinellu unrhyw fylchau sy'n weddill sy'n rhwystro Cyngor Môn rhag gallu gwneud asesiadau priodol.
dd) Rhwymedigaethau a Gofynion DCO: Safbwyntiau Cyngor Môn ar ddigonolrwydd a'r angen am fesurau lliniaru ychwanegol a gwahanol.

1.2.3 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, safbwyntiau cychwynnol yw'r rhwymedigaethau a'r gofynion a argymhellir gan Gyngor Môn. Nid ydynt, ar hyn o bryd, yn rhestr lawn o ofynion a rhwymedigaethau nac yn eiriad terfynol ar gyfer pob un.

## 1.3 Sylfaeni'r Adroddiad

### 1.3.1 Economaidd a Chymdeithasol


1.3.1.1 Ers dros ddegawd bellach, mae Cyngor Môn wedi mabwysiadu a chynnal safbwynt cefnogol mewn perthynas ag Adeiladu Datblygiad Niwclear Newydd posib. Cyn mabwysiadu EN-1[2] ac EN-6[3] hyd yn oed, ac yn seiliedig ar fanteision economaidd-gymdeithasol positif a brofwyd yng ngorsaf niwclear bresennol Magnox, roedd adeiladu datblygiad niwclear newydd yn ffordd bosibl o sicrhau manteision byr dymor a hirdymor pwysig i economi'r ynys. Byddai'r rhain, yn eu tro, yn sail i lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Gall economi'r ynys, ar ei gorau, gael ei hystyried yn fregus (mae Proffil Ystadegol y Sir wedi'i gynnwys yn Atodiad 1A). Roedd annog a chefnogi portffolio amrywiol o ddatblygiadau ynni ar yr ynys, gan gynnwys adeiladu datblygiad niwclear newydd, yn flaenoriaeth strategol i Gyngor Môn drwy'r Rhaglen Ynys Ynni[4].

[2] EN-1 Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar gyfer Ynni. (Dolen)
[3] EN-6 Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear (Dolen)
[4] Gwefan Ynys Ynni Môn. (Dolen)

1.3.1.2 Fodd bynnag, mae Cyngor Môn yn llwyr gydnabod ac yn gwerthfawrogi (fel y nodwyd yn ei Sylwadau Perthnasol, Awst 2018[5]), o ystyried maint a chymhlethdod y prosiect, bod yn rhaid i ddatblygiad Wylfa Newydd fod y cynllun iawn i Ynys Môn. Rhaid iddo barchu cymeriad unigryw yr Ynys yn llwyr a'r ymdeimlad arbennig o le a ddiffinnir ar gyfer yr ExA yn 'Ynys Môn: Ymdeimlad o Le' (Atodiad 1B), a bod ei gefnogaeth i'r datblygiad arfaethedig, a'r drwydded gymdeithasol ar gyfer y datblygwr, ddim yn dod ar unrhyw gost.


1.3.1.3 Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn, a sefydlwyd yn 2010, yn ceisio hwyluso a datblygu partneriaeth gydweithredol o sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector i leihau risg a sicrhau'r canlyniadau positif gorau posibl o gyfres amrywiol o fuddsoddiadau sy'n gysylltiedig ag ynni (Map1 a Map2, Cyngor Môn Tach 2018 ).

**Map 1:** Rhaglen Ynys Ynni Môn – Datblygiadau.




[5] Sylwadau Perthnasol Cyngor Môn, Awst 2018 (Dolen)

**Map 2:** Rhaglen Ynys Ynni Môn – Buddsoddiadau Cysylltiedig




### 1.3.2 Cymuned ac Iaith

1.3.2.1 Fel cymuned ynys, heb os, mae Ynys Môn a'i phobl yn teimlo ymdeimlad cryf o hunaniaeth gyffredin sy'n dyddio nôl ganrifoedd lawer. Mae llawer o deuluoedd wedi gweithio'r un tir ers cenedlaethau.

1.3.2.2 "Ysbryd cymunedol a chymdogion da" oedd un o agweddau allweddol bywyd Ynys Môn a gyfrannodd at lesiant fel y nodwyd gan gyfranwyr arolygon Asesu Llesiant 2017 ar gyfer Cynllun Llesiant 2018. Atgyfnerthir hynny ymhellach gan y defnydd pennaf a pharhaus o iaith gyffredin – sef y Gymraeg.

1.3.2.3 Mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg fel edau aur sy'n llifo drwy gymdeithas Ynys Môn. Mae'n rhwymo'r ymdeimlad cryf o gymuned ac mae'n gysylltiedig yn y bôn â'r hanes sy'n diffinio'r ardal a'i thrigolion. Mae'n elfen naturiol o fywyd bob

dydd, mae plant yn cael eu magu a'u haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy draddodiadau a diwylliant Cymreig.

1.3.2.4 Mae'r Adroddiad hwn, a'r cyd-destun polisi sy'n sail iddo, felly yn rhoi cryn bwys ar ddiogelu a gwella'r Gymraeg a'i diwylliant ochr yn ochr ag elfennau eraill sy'n dylanwadu ar gymunedau cryf, cydlynus Ynys Môn.

### 1.3.3 Amgylchedd Naturiol

1.3.3.1 Ar wahân i'r ffaith amlwg bod Ynys Môn wedi'i lleoli ar wahân yn ddaearyddol i dir mawr Cymru, caiff ei hystyried gan y rhai sy'n byw yma neu sy'n ymweld â’r ynys fel ardal o harddwch naturiol a llonyddwch arbennig sy'n ei gwneud yn wahanol i unrhyw le arall yn y DU.

1.3.3.2 Mae gan Ynys Môn amgylchedd naturiol pwysig a gwerthfawr. Ar Ynys Môn, mae'n bosibl dod ar draws bywyd gwyllt nad yw'n gyffredin ar y tir mawr bellach, ac mae rhai rhywogaethau a chynefinoedd yn brin, mewn perygl neu'n werthfawr ar draws y Gymuned Ewropeaidd yn gyffredinol. Mae'r ynys yn gyfoethog o asedau treftadaeth, sy'n dyddio nôl dros filoedd o flynyddoedd. Mae ei thirwedd, ei harfordir a'i thraethau godidog (sy'n rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, yn ogystal â darnau o’r Arfordir Treftadaeth), yn asedau economaidd gwerthfawr yn ogystal â bod yn allweddol i lesiant trigolion lleol.

1.3.3.2 Felly, mae cryn ystyriaeth yn cael ei roi yn yr Adroddiad hwn ar werth eithriadol yr amgylchedd naturiol a'r angen i sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn peryglu hynny.

### 1.3.4 Llesiant, polisi cynllunio ac etifeddiaeth

1.3.4.1 Y man cychwyn ar gyfer pob datblygiad polisi yw'r fframwaith deddfwriaethol; yn yr achos hwn, mae angen rhoi sylw penodol i amcanion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[6] y mae pob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru o dan ddyletswydd i'w hyrwyddo. Mae hyn yn cynnwys Cyngor Môn fel awdurdod cynllunio lleol gan sicrhau bod ei bolisi cynllunio lleol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac yn cefnogi'r nodau llesiant. Mae hyrwyddo llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn golygu bod angen cynllunio prosiectau (a mesurau lliniaru) gyda'r bwriad o edrych tuag at y tymor hwy a sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn etifeddu canlyniadau positif. I wneud hyn, mae angen i brosiectau mawr, pwysig fel Wylfa Newydd ddarparu manteision a chyfleoedd drwy gydol eu cylch oes. Mae hyrwyddo llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng nghyd-destun Wylfa Newydd yn cael ei drafod fwyaf eglur drwy’r syniad o etifeddiaeth. Ym marn Cyngor Môn gall ‘etifeddiaeth’ fod ar sawl ffurf, gan gynnwys newidiadau ar lawr gwlad neu newidiadau positif ym mhroffil economaidd-gymdeithasol yr Ynys a chynnal ansawdd amgylcheddol a nodweddion unigryw y gymuned.

[6] Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (Dolen)

1.3.4.2 Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, disgwylir i Ynys Môn groesawu cyfres o brosiectau mawr. Mae'r prosiectau seilwaith mawr a chymhleth hyn, sydd o werth uchel, yn debygol o greu nifer o fanteision positif ar gyfer Ynys Môn, yn ogystal â chael effaith negyddol arni, am nifer o flynyddoedd. Mae Cyngor Môn yn disgwyl i bob prosiect mawr gael etifeddiaeth bositif ar Ynys Môn. Mae etifeddiaeth yn ymgorffori llesiant yn ei ystyr ehangaf, cynaliadwyedd a'r angen i sicrhau bod cynigion yn cynnig manteision sylweddol i'r gymuned sy'n cynnal y datblygiad ar ôl y prif gyfnodau adeiladu. Mae Cyngor Môn o'r farn bod cydymffurfio ag etifeddiaeth bositif ac ymrwymo iddi yn hanfodol i fodloni gofynion llesiant ac y dylid edrych ar hynny mewn cyd-destun llawer ehangach na dim ond cyflogaeth yn y dyfodol sy’n deillio o gyfleoedd gwaith adeiladu a gweithrediadau. Felly, mae’r cysyniad o waddol yn rhan greiddiol o agwedd yr Ynys, gan gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y Cyd, y CCA a'r Fframwaith Etifeddiaeth.

1.3.4.3 Un o'r cwestiynau allweddol a ofynnwyd wrth ystyried prawf cadernid y CDLl ar y Cyd oedd a roddwyd ystyriaeth yn y cynllun i’r nodau Llesiant. Mae gweledigaeth y CDLl ar y Cyd yn dangos y disgwylir i’r Prosiect ddarparu etifeddiaeth drwy “*wella ansawdd bywyd y cenedlaethau presennol a chenedlaethau’r dyfodol” “cyfleoedd economaidd trawsnewidiol”, “cyfrannu at drawsnewid yr economi leol*” a fydd i gyd yn hyrwyddo'r nodau llesiant. Er mwyn cydbwyso effeithiau andwyol y prosiect, mae'n rhaid i'r manteision a'r mesurau lliniaru sydd i'w cyflawni sicrhau etifeddiaeth i genedlaethau'r dyfodol o fewn y gymuned fydd yn cynnal y datblygiad, ac nid yn ystod y cyfnod adeiladu yn unig. Roedd cynnwys polisïau penodol ar Wylfa Newydd o fewn y CDLl ar y Cyd yn ddewis bwriadol a ddatblygodd yn sgil archwiliad cyhoeddus o'r cynllun ac a gefnogwyd gan y datblygwr, Llywodraeth Cymru a'r Arolygwyr. Mae'r cynllun hwnnw a'r polisïau penodol ynddo wedi'u treiddio i’r gofynion etifeddiaeth a phwysigrwydd ei gyflawni. Canfuwyd bod y cynllun, gan gynnwys y ffocws ar etifeddiaeth, yn gadarn yn ôl yr arolygwyr. Nodir canllawiau ar fynd i'r afael ag effeithiau'r datblygiad a darparu datblygiad cynaliadwy sy'n gadael etifeddiaeth ystyrlon a phositif yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig Wylfa Newydd. Cafodd y canllawiau eu mabwysiadu’n wreiddiol yn 2014, eu diwygio yn 2017 a’u mabwysiadu’n ffurfiol yn 2018 i ystyried y CDLl ar y Cyd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

1.3.4.4 Mae'r syniad o etifeddiaeth yn allweddol i'r dull a fabwysiadwyd yn y CDLl ar y Cyd. Mae'r cynllun yn nodi 19 o amcanion strategol. Mae Amcan Strategol RhS 5 yn darparu y dylai pob datblygiad yn ardal y cynllun gefnogi egwyddorion datblygu cynaliadwy, ac mae Cyngor Môn o'r farn, yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy Wylfa Newydd, bod angen darparu buddion etifeddiaeth sylweddol o ddatblygiad ar raddfa fawr. Mae hyn yn cynnwys cynllunio agweddau o’r prosiect er mwyn caniatáu parhau neu ailddefnyddio ar ôl y cyfnod adeiladu, a datblygu cynlluniau a strategaethau i wneud y gorau o fanteision hirdymor rhwng cenedlaethau. Mae RhS 9 yn ceisio “*Cefnogi a manteisio ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig i wneud y gorau o gyfleoedd economaidd-gymdeithasol i fusnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hwyluso rhwydwaith addas o safleoedd datblygu sy’n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd tra'n sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar y*

*cymunedau lleol yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru'n briodol, a lle bo buddion etifeddiaeth priodol yn cael eu darparu".*

1.3.4.5 Mae strategaeth gyffredinol y cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i bob defnydd dros dro (nid y rhai ar gyfer Wylfa Newydd yn unig) gael eu cynllunio i hwyluso defnyddiau hirdymor eraill yn y dyfodol, gan ddarparu etifeddiaeth (Trosolwg y Strategaeth, 5.3). Mae'r rhan o'r cynllun sy'n delio â NSIP yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygwr NSIP "*nodi defnyddiau etifeddiaeth posibl, gan gynnwys seilwaith trafnidiaeth, cymdeithasol, economaidd a chymunedol a fyddai o fudd i'r gymuned yn yr hirdymor"* (6.3.6) a "*bod cynghorau yn ei gwneud yn ofynnol i'r prosiect ddarparu buddion etifeddiaeth i gymunedau lleol yn ystod cyfnod y Cynllun neu ar ôl y cyfnod adeiladu"* (6.3.17).

1.3.4.6 Ym mis Medi 2017, mabwysiadodd Cyngor Môn Fframwaith Etifeddiaeth 'Fframwaith thematig i wireddu dyheadau etifeddiaeth Cyngor Môn' (Atodiad 1C), a baratowyd ar gyfer datblygwyr i amlinellu dyheadau prif brosiectau Cyngor Môn. Ei nod yw darparu sylwadau thematig o sut gallai'r Ynys edrych yn 2025 os yw dyheadau hirdymor Cyngor Môn, a dyheadau partneriaid, yn cael eu gwireddu a'u cyflawni. Mabwysiadwyd y fframwaith thematig hwn yn ffurfiol gan Gyngor Môn ac mae'n mynegi'n glir ddyheadau etifeddiaeth Cyngor Môn i ddarpar ddatblygwyr yn unol â'r nodau Llesiant, y CDLl ar y Cyd a Chanllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd.

### 1.3.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.3.5.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus Cymru i gyflawni datblygu cynaliadwy. Yn y Ddeddf hon, diffinnir datblygu cynaliadwy fel "*y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, i gyflawni'r nodau llesiant".* Yn y cyd-destun hwn, mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus "*weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain".*

1.3.5.2 Yng ngoleuni'r uchod a'r cysylltiad clir iawn rhwng llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac etifeddiaeth, mae Cyngor Môn wedi comisiynu Asesiad Llesiant i ystyried sut gallai Prosiect DCO Wylfa Newydd effeithio ar lesiant drwy gydol oes y prosiect (Atodiad 1D). Er mwyn helpu i gynnal yr asesiad, yn ogystal â llywio rhannau eraill o'r Adroddiad hwn, mae Cyngor Môn hefyd wedi cynhyrchu 'Adroddiad Ymdeimlad o Le' (y cyfeiriwyd ato eisoes fel Atodiad AA). Mae'r adroddiad (a gymeradwywyd gan Weithrediaeth Cyngor Môn ar 22ain Hydref) yn nodi'r hyn sy'n gwneud Ynys Môn yn lle unigryw ac arbennig i ymweld â hi, i fyw ac i weithio.

1.3.5.3 Mae'r Ddeddf Llesiant a'r dyletswyddau sydd ynddi yn rhwymo pob corff cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Gan y bydd Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniad cynllunio ar brosiect yng Nghymru drwy

benderfynu ar y cais hwn, mae Cyngor Môn yn argymell y dylid ystyried y ddeddfwriaeth Llesiant fel mater pwysig a pherthnasol o dan adran 104 neu 105 o Ddeddf Cynllunio 2008 fel sy'n berthnasol.

1.3.5.4 Ysgrifennodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru at Weinidogion Llywodraeth y DU ar 3ydd Mawrth 2018 i dynnu eu sylw at oblygiadau'r Ddeddf o ran penderfyniadau a wnânt sy'n berthnasol i Gymru. Nododd fod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyflawni datblygiad cynaliadwy, sy'n cynnwys llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Nododd, er nad yw adrannau Llywodraeth y DU yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y Ddeddf, y gellid ei ystyried yn synnwyr cyffredin ac yn fuddiol i bob cymuned yn yr hirdymor wrth wneud a gweithredu penderfyniadau Llywodraeth y DU yng Nghymru, ei fod yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n gydnaws â'r dyletswyddau hynny sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf.

1.3.5.5 O ystyried yr uchod mae Cyngor Môn yn argymell:

a) Y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gymryd ystyriaeth fwriadol a dilys o'r Ddeddf wrth wneud y penderfyniad terfynol ar y cais DCO hwn.
b) Dylai'r Awdurdod Archwilio hefyd roi ystyriaeth fwriadol a dilys o'r Ddeddf wrth ystyried y cais ac adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol.
c) Dylai Cyngor Môn, fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n cynnal y datblygiad, ddangos sut mae'n cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r DCO hwn.
d) Gall Pŵer Niwclear Horizon ddefnyddio'r Ddeddf fel fframwaith i gyflwyno, datblygu, ac o bosib, gweithredu ei gynnig, ac y dylid disgwyl iddo wneud hynny'n rhesymol.

### 1.3.6 Y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

1.3.6.1 Mae adolygiad manwl o'r polisïau a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) wedi'i gynnwys o fewn pennod Fframwaith Polisi yr Adroddiad hwn (Pennod 2). Fodd bynnag, mae polisïau'r CDLl ar y Cyd wedi'u datblygu'n benodol ac yn fwriadol i ystyried Wylfa Newydd, ac felly'n llywio'r Adroddiad hwn.

### 1.3.7 Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (CCA)

1.3.7.1 Mae amlinelliad o CCA Wylfa Newydd hefyd wedi'i gynnwys yn adran Fframwaith Polisi yr Adroddiad hwn (Pennod 2). Mae'n amlinellu gweledigaeth ac amcanion Cyngor Môn ar gyfer prosiect Wylfa Newydd ac yn rhoi canllawiau thematig clir a chanllawiau sy'n benodol i'r safleoedd i Horizon ar ddisgwyliadau Cyngor Môn. Unwaith eto, mae etifeddiaeth ar ôl y cyfnod adeiladu yn hollbwysig. Mae'r CCA wedi bod yn allweddol wrth baratoi'r Adroddiad hwn a dylid ei ddarllen ar y cyd gan ei fod yn cynnig safbwynt Cyngor Môn mewn perthynas â'r holl faterion thematig a'r materion sy'n benodol i'r safleoedd.

1.3.7.2 Mae'n ystyriaeth bwysig ac arwyddocaol i brif ddatblygiad y safle arfaethedig yn ogystal â'r datblygiadau cysylltiedig arfaethedig. Byddai'r rhain wedi bod yn destun TCPA pe na bai Deddf Cymru wedi cael ei rhoi ar waith ym mis Ionawr 2017. Roedd gan Horizon yr opsiwn i gyflwyno datblygiadau cysylltiedig i Gyngor Môn fel Awdurdod Cynllunio Lleol ac i beidio â'u hymgorffori yn y DCO. Mae Cyngor Môn felly'n credu bod y dogfennau hyn, (ynghyd â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol), yn parhau i fod yn bwysig waeth pa gyfundrefn gydsynio y mae'r cynigion yn cael eu hystyried oddi tanynt.

### 1.3.8 Fframwaith Etifeddiaeth: Gweledigaeth ar gyfer 2025

1.3.8.1 Er mwyn llywio a diffinio dyheadau 'etifeddiaeth' a llesiant positif sy'n deillio o'r CDLl ar y Cyd a'r CCA yn fwy clir, mabwysiadodd Cyngor Môn Fframwaith Etifeddiaeth ym mis Medi 2017.

1.3.8.2 Yn ei Fframwaith Etifeddiaeth, mae Cyngor Môn yn disgwyl i'r broses o ddatblygu, adeiladu a gweithredu prosiectau mawr ar yr ynys gyfrannu'n sylweddol at drawsnewid cynaliadwyedd, llesiant ac 'ymdeimlad o le' yr Ynys a'i chymunedau yn yr hirdymor - i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. O'r herwydd, mae'n hanfodol bod y prosiectau'n cael eu datblygu, eu hadeiladu a'u gweithredu mewn ffordd gydlynol, integredig a gwybodus er mwyn manteisio i'r eithaf ar fanteision economaidd-gymdeithasol, diogelu economi, iaith a diwylliant yr Ynys ac osgoi unrhyw effeithiau andwyol posibl.

1.3.8.3 O ystyried yr uchod, mae etifeddiaeth a llesiant yn themâu sylfaenol hollbwysig drwy gydol y fframwaith polisi lleol, ac felly, drwy gydol yr Adroddiad hwn, a ddylai fod yn ystyriaethau pwysig ac arwyddocaol i'r Awdurdod Archwilio.

### 1.3.9 Egwyddor Agosatrwydd

1.3.9.1 Y 'sylfaen' pwysig olaf sydd wedi llywio safbwyntiau Cyngor Môn ar y cynnig o'r cychwyn cyntaf, ac felly'r Adroddiad hwn, yw'r Egwyddor Agosatrwydd (Atodiad 1E).

1.3.9.2 Mae hyn yn cydnabod y bydd llawer o effeithiau uniongyrchol y datblygiad yn cael eu crynhoi yng nghyffiniau'r safle, yng Ngogledd Ynys Môn. Wrth i bellter o'r safle gynyddu, disgwylir y bydd yr effeithiau uniongyrchol yn gwasgaru, gan ledaenu'r effaith dros ardal ehangach, poblogaeth fwy a mwy o dderbynyddion.

1.3.9.3 O'r herwydd, mae'r egwyddor agosatrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i fesurau lliniaru, neu fesurau digolledu lle na ellir darparu mesurau lliniaru neu lle na fyddant yn ddigonol, gael eu crynhoi yn yr ardaloedd lle bydd yr effeithiau uniongyrchol mwyaf. Yn unol â hynny, mae'r Adroddiad hwn yn cyfeirio at Ogledd Ynys Môn (yn enwedig Wardiau Cyngor Talybolion a Thwrcelyn), sef yr ardal union gyferbyn â'r datblygiad fydd yn cael ei heffeithio fwyaf gan

effeithiau ffisegol ac anffisegol. Felly dylid rhoi ystyriaeth arbennig o ran effeithiau crynodiad ac effeithiau cronnol posibl.

## 2.0 Ymgynghori Cyn Gwneud Cais a'r Ymgysylltu ar ôl hynny

### 2.1 Ymgynghori Cyn Gwneud Cais

2.1.1 Mae gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu Horizon wedi'u cofnodi'n llawn yn ei Brif Adroddiad Ymgynghori (Cais Rhif 5.1[7]) ac mae barn Cyngor Môn ar ddigonolrwydd ei broses ymgysylltu eisoes wedi'i chyfleu i'r ExA yn Sylwadau Digonolrwydd Ymgynghorol Cyngor Môn ym mis Mehefin 2018[8].

2.1.2 Cynhaliodd Horizon ymgynghoriad mewn sawl cam. Gwnaeth Cyngor Môn ymdrech sylweddol i ymateb yn llawn, ac yn fanwl, i'r wybodaeth a ddarparwyd yn ystod pob cam ffurfiol o'r broses ymgynghori.

2.1.3 Mae canllawiau'r Llywodraeth yn nodi[9] *"pan fydd cais arfaethedig yn newid i'r fath raddau y gellid ystyried y cynigion yn gais newydd, ac felly bod cyfreithlondeb yr ymgynghoriad a gynhaliwyd eisoes o dan gwestiwn, dylai ymgeiswyr ymgymryd ag ail ymgynghoriad llawn o'r opsiynau newydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai ymgeiswyr roi digon o wybodaeth i'r rhai yr ymgynghorir â hwy i'w galluogi i ddeall natur y newid yn llawn (ond nid o reidrwydd y gyfres lawn o ddogfennau ymgynghori), a chaniatáu o leiaf 28 diwrnod i'r rhai yr ymgynghorir â hwy gael ymateb".*

### 2.2 Agwedd at fesurau lliniaru

2.2.1 Ar ba bynnag sail, mae'n amlwg y bydd prosiect Wylfa Newydd yn cael effaith andwyol sylweddol ar amgylchedd ac amwynder Ynys Môn (yn enwedig ar Ogledd Ynys Môn).

2.2. Mae Cyngor Môn yn awgrymu y dylid defnyddio'r hierarchaeth liniaru[10] i lywio'r agwedd at y prosiect; drwy geisio osgoi effeithiau yn y lle cyntaf lle bo modd, eu lleihau lle byddant yn digwydd ac yna eu lliniaru fel dewis olaf. Mae Horizon wedi cynnig dull adweithiol o ymdrin ag effeithiau negyddol yn ei gais sy'n gohirio gweithredu mesurau lliniaru nes bod y gwaith monitro yn dangos bod effaith yn digwydd. Mae hyn yn annerbyniol. Dylid strwythuro mesurau lliniaru yn y DCO er mwyn osgoi a lleihau effeithiau andwyol.

---

[7] Cyfeirnod Llyfrgell APP-[037]

[8] Cyfeirnod Llyfrgell AoC-001 (Llythyr Digonolrwydd Ymgynghorol Cyngor Môn at PINS, Dyddiedig 15fed Mehefin 2018) (Dolen)

[9] "Deddf Cynllunio 2008: Canllaw ar y broses cyn gwneud cais" (Mawrth 2015) (paragraff 54) (Dolen)

[10] Canllaw Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, Sefydliad Rheoli ac Asesu'r Amgylchedd (IEMA) 2004 (fel y cyfeiriwyd ato yn y Datganiad Amgylcheddol ar gyfer y cais, Cyflwyniad Pennod B1 i'r broses asesu (Dogfen 6.2.1), Cyfeirnod Llyfrgell APP- 412 yn 1.4.57 a chyfeirnod RD10) sy'n nodi y dylid dilyn strategaeth o osgoi, lleihau, digolledu ac adfer gyda chyfleoedd i wella yn dilyn hynny. Yn yr adroddiad hwn defnyddir 'mesurau lliniaru' yn lle' iawndal' i gwmpasu ystod ehangach o fesurau, i osgoi unrhyw ganfyddiad y gellir neu y dylid mynd i'r afael ag effeithiau drwy daliadau ariannol yn unig ac i atal achosi dryswch gyda thrafodaethau prynu gorfodol.

2.2.3 Nid yw dull Horizon yn cyd-fynd â'r hierarchaeth liniaru drwy fethu â manteisio ar gyfleoedd clir i osgoi a lleihau effeithiau negyddol, ac yn lle hynny, ymateb gyda mesurau lliniaru ar ôl iddynt ddigwydd. Er enghraifft: mae Strategaeth Llety'r Gweithlu[11] yn nodi y "*bydd Horizon yn defnyddio dull "cynllunio, monitro a rheoli*"; mae'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau[12] yn darparu y bydd y gronfa sgiliau yn ymateb i ofynion unwaith y byddant wedi codi ac felly bod effaith wedi digwydd; ac mae'r Datganiad Cynllunio[13] yn darparu y caiff blociau campws y safle eu hadeiladu i ymateb i'r galw gwirioneddol yn hytrach na chael eu defnyddio'n rhagweithiol i atal effeithiau negyddol. Mae Cyngor Môn yn ystyried, ac wedi cynghori drwy gydol yr ymgynghoriad, fod y dull a awgrymwyd gan Horizon o ymateb i effeithiau unwaith y cânt eu profi drwy fonitro (ac felly beth amser ar ôl i'r effaith ddechrau) yn sylfaenol annerbyniol.

2.2.4 Mae Cyngor Môn yn awgrymu bod mabwysiadu dull monitro ac ymateb ond yn dderbyniol ar gyfer effeithiau na ellir eu mesur neu sy'n wahanol i'r rhai a ragwelwyd yn yr asesiad. Ym mhob achos arall, mae Cyngor Môn yn mynnu bod y dull yn rhagweithiol wrth geisio osgoi effeithiau yn hytrach nag ymateb unwaith y bydd y niwed wedi digwydd. Yn unol â hynny, mae Cyngor Môn yn gofyn am fesurau lliniaru rhag blaen sy'n rhagweithiol, yn eu lle, ac ar waith yn ystod y cam cynnar yn unol ag a106 y cytunwyd arno a chynlluniau manwl a sicrhawyd drwy ardystio neu ofynion.

2.2.5 Mae Horizon yn nodi nifer o effeithiau positif yn ei gais lle nad yw'n cynnig unrhyw fesurau i sicrhau bod y buddion a honnwyd yn cael eu gwireddu. Heb unrhyw gynllun clir ar sut bydd buddion o'r fath yn cael eu darparu, mae Cyngor Môn yn awgrymu bod yn rhaid bod yn ofalus iawn wrth dderbyn y bydd y buddion hyn yn cael eu gwireddu. Mae Horizon hefyd yn dibynnu ar fesurau lliniaru, lle na fydd yn gyfrifol am wireddu, fel enghraifft, honiad Horizon y bydd adeiladwyr tai yn cynyddu darpariaeth cartrefi newydd mewn ymateb i'r galw cynyddol.

2.2.6 Yn yr adroddiad hwn, mae Cyngor Môn wedi nodi cyfleoedd i leihau effeithiau negyddol neu eu hosgoi drwy ddefnyddio mesurau rhagweithiol ac effeithiau niwtral i'w troi'n bositif. Mae Cyngor Môn hefyd wedi nodi mesurau sydd eu hangen i sicrhau bod y buddion a honnwyd yn cael eu cyflawni ac wedi nodi cyfleoedd i gynyddu arwyddocâd effeithiau positif.

## 2.3 Diogelu mesurau lliniaru

2.3.1 Bydd cydbwysedd cynllunio penderfyniad y DCO hefyd yn cynnwys ystyried digonolrwydd cynigion lliniaru wrth bennu arwyddocâd yr effeithiau cyffredinol. Er mwyn i Gyngor Môn gefnogi rhoi pwys ar y mesurau lliniaru arfaethedig, rhaid ei ddiogelu mewn ffordd y gall Cyngor Môn gael sicrwydd y bydd yn cael ei ddarparu.

2.3.2 Lle mae mesurau lliniaru i'w rhyddhau mewn ymateb i fonitro ar bwyntiau sbardun neu drothwyon nad ydynt wedi'u nodi a'u cytuno, ac felly na ellir ystyried

[11] Doc 8.4, Cyfeirnod Llyfrgell APP-412 yn 1.1.2
[12] Doc 8.3, Cyfeirnod Llyfrgell APP-411 yn 1.1.8
[13] DOC 8.1, Cyfeirnod Llyfrgell APP- 4.6 yn atodiad C

eu haddasrwydd, nid yw Cyngor Môn yn ystyried hyn yn briodol fel mesurau lliniaru. Lle mae cyflawni'r camau lliniaru hynny yn dibynnu ar gamau gweithredu yn y dyfodol ac, yn achos cyllid wrth gefn, yn ôl disgresiwn pobl eraill, mae Cyngor Môn o'r farn na ellir dibynnu ar y mesurau lliniaru ac felly ni ellir rhoi unrhyw bwys arnynt.

2.3.3 Mae cais Horizon yn cynghori bod y Cod Ymarfer Adeiladu (CoCP) ac is-God Ymarfer Adeiladu "*yn cynnwys digon o fanylion i ddangos y bydd y mesurau lliniaru a ddisgrifir yn y Datganiad Amgylcheddol yn cael eu gwireddu*[14]*".* Nid yw Cyngor Môn yn cytuno ac mae'n nodi bod y CoCPs o lefel uchel, yn gyffredinol ac yn brin o fanylion ynglŷn â sut bwriedir darparu mesurau rheoli a lliniaru. Mae angen mwy o eglurder a manylder er mwyn i Gyngor Môn asesu ei ddigonolrwydd yn briodol.

## 2.4 Dull ariannu wrth gefn

2.4.1 Mae gan Gyngor Môn nifer o wrthwynebiadau i'r dull ariannu wrth gefn a nodir yn fanwl yn ei sylwadau ysgrifenedig.

2.4.2 Bu rhywfaint o ddryswch yn y derminoleg ar gyfer cyllid wrth gefn a fabwysiadwyd gan Horizon. Yn wreiddiol, cynigiwyd cronfa i fynd i'r afael ag effeithiau annisgwyl ac effeithiau na ellir eu mesur a'i galw'n Gronfa Gwytnwch Gymunedol. Mae'r drafft a106 a ddarparwyd gan Horizon ddiwedd Hydref 2018 bellach yn argymell Cronfa Gymunedol a nifer o gronfeydd wrth gefn o dan y penawdau Twristiaeth, Addysg, Llety a Thrafnidiaeth.

2.4.3 Mae'r Gronfa Gymunedol fel y cynigiwyd gan a106 i fod yn agored i geisiadau am gyllid gan gyrff cymwys (nid yw sgôp pwy sy'n gymwys wedi'i gytuno eto) er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau anniriaethol a gweddilliol Wylfa Newydd. Nid yw gwerth y Gronfa hon a'r meini prawf wedi'u cytuno eto. Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd pa fesurau y bydd y Gronfa hon yn eu cefnogi, pryd ac ar ba amodau.

2.4.4 Mae Cyngor Môn yn nodi y bydd cronfeydd wrth gefn Twristiaeth, Addysg, Llety a Thrafnidiaeth i gyd yn cael eu rheoli gan y WNMPOP yn unol â'r broses gyffredinol a nodir yn y CoCP[15]. Mae'r broses hon yn cynnwys is-grwpiau WMNPOP fydd yn ystyried monitro a gwneud argymhellion ar fesurau lliniaru anhysbys sydd i'w hystyried gan WMNPOP, a all benderfynu beth, ac os oes unrhyw fesurau, i'w cyflawni a faint o arian sy'n cael ei ryddhau. O dan y trefniadau i ryddhau'r arian hwn nid oes sicrwydd felly y bydd unrhyw fesur yn cael ei weithredu, lefel yr arian fydd ar gael ar gyfer y mesur hwnnw, amseriad unrhyw gamau gweithredu neu hyd yn oed pwy fydd â mynediad at gyllid o'r fath.

## 2.5 Ymgysylltu â Horizon ar ôl cyflwyno'r DCO

2.5.1 Ar ôl derbyn y DCO ar 28ain Mehefin 2018, cynhaliodd Cyngor Môn weithdy Datganiad Tir Cyffredin gyda Horizon ar 24ain Gorffennaf 2018. Yn y gweithdy

[14] Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (dogfen 8.6), Cyfeirnod Llyfrgell APP-414 at 2.3.3
[15] Ibid yn 3.2.6

hwn, rhoddodd Cyngor Môn drosolwg i Horizon o'i safbwynt mewn perthynas â phob thema/safle.

2.5.2 Yn dilyn hyn, (ac fel y codwyd yng Ngwrandawiad Materion Penodol y DCO ar 24ain Hydref 2018), anfonodd Cyngor Môn 12 llythyr ar wahân at Horizon yn ystod mis Medi/Hydref 2018 ar ystod eang o faterion thematig a safleoedd yn manylu ar safbwynt Cyngor Môn ar bob mater (gweler Atodiad 1F - 1Q).

2.5.3 Nid yw Cyngor Môn wedi derbyn ymateb i'r llythyrau hyn eto. O ganlyniad, ychydig o gynnydd a wnaed ar y SOCG.

## 2.6 Cydweithio â Phartneriaid Allweddol yn y Sector Cyhoeddus

2.6.1 Drwy'r Rhaglen Ynys Ynni (y cyfeirir ati yn 3.2 uchod), mae Cyngor Môn wedi bod yn cydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus ar Wylfa Newydd ers bron i 10 mlynedd. Mae Cyngor Môn yn cwrdd ar wahân gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn fisol i drafod materion Wylfa Newydd. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn gwbl ymwybodol o safbwyntiau ein gilydd yn ystod pob cam o'r broses DCO.

2.6.2 Yn fwy diweddar, sefydlwyd Tîm Cymru (wedi'i sefydlu, ei gydlynu a'i arwain gan Gyngor Môn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru), i gydlynu gweithgareddau sefydliadau sector cyhoeddus Cymru mewn perthynas â phroses statudol y DCO ar gyfer Wylfa Newydd. Gydag aelodau yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Cynghorau Gwynedd a Chonwy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae Tîm Cymru yn fforwm i rannu gwybodaeth a safbwyntiau i geisio sefydlu persbectif cyson. Felly, mae dull Cyngor Môn o ymdrin â'r Adroddiad hwn hefyd wedi'i lywio gan y trefniadau cydweithredol sydd ganddo â'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus.